# Cwestiynau Llafar y Cynulliad a gyflwynwyd ar 2 Gorffennaf 2015 i'w hateb ar 7 Gorffennaf 2015

**R - Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.**
**W - Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.**

**(Dangosir rhif gwreiddiol y Cwestiwn mewn cromfachau)**

Bydd y Llywydd yn galw ar Lefarwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Prif Weinidog ar ôl Cwestiwn 2.

## Gofyn i Brif Weinidog Cymru

**1. Paul Davies (Preseli Sir Benfro):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am wella'r ddarpariaeth band eang mewn cymunedau gwledig? OAQ(4)2383(FM)

**2. Simon Thomas (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Pa drafodaethau y mae'r Prif Weinidog wedi'u cael gyda Llywodraeth y DU ynghylch diddymu cymorthdaliadau ar gyfer datblygiadau ynni gwynt ar y tir? OAQ(4)2393(FM)**W**

**3. Christine Chapman (Cwm Cynon):** Pa ystyriaeth y mae Llywodraeth Cymru wedi'i rhoi i'r effaith y bydd newidiadau i'r system les a gyflwynwyd gan Lywodraeth y DU yn ei chael ar lefelau tlodi plant yng Nghymru? OAQ(4)2392(FM)

**4. Gwenda Thomas (Castell-nedd):** Pa drafodaethau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u cael gyda Llywodraeth y DU ynghylch y sefyllfa ariannol yn Ewrop ar hyn o bryd? OAQ(4)2382(FM)

**5. Bethan Jenkins (Gorllewin De Cymru):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am weithredu'r adroddiad Ymddiried mewn Gofal? (OAQ(4)2385(FM)

**6. Lindsay Whittle (Dwyrain De Cymru):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad yn amlinellu'r cynnydd a wnaed mewn perthynas â mynd i'r afael â sgamiau? OAQ(4)2391(FM)

**7. Julie Morgan (Gogledd Caerdydd):** Pa gynlluniau sydd gan Lywodraeth Cymru i wella bywydau cleifion arennol yng Nghymru? OAQ(4)2399(FM)

**8. Mohammad Asghar (Dwyrain De Cymru):** Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru'n eu cymryd i fynd i'r afael â llid yr ymennydd yng Nghymru? OAQ(4)2388(FM)

**9. Altaf Hussain (Gorllewin De Cymru):** A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu sut y bydd Llywodraeth Cymru yn gwella amseroedd aros yn y GIG yng Ngorllewin De Cymru? OAQ(4)2394(FM)

**10. Elin Jones (Ceredigion):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am flaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer gwella iechyd cyhoeddus? OAQ(4)2395(FM)**W**

**11. Ann Jones (Dyffryn Clwyd):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am fanteision y Gronfa Byw'n Annibynnol o £20.4 miliwn i bobl Dyffryn Clwyd? OAQ(4)2396(FM)

**12. Nick Ramsay (Mynwy):** A wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am flaenoriaethau trafnidiaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer Sir Fynwy? OAQ(4)2390(FM)

**13. Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn):** Pa drafodaethau y mae'r Prif Weinidog wedi'u cael gyda Llywodraeth y DU am ddatganoli cyflogau athrawon? OAQ(4)2401(FM)**W**

**14. Jenny Rathbone (Canol Caerdydd):** Pa drafodaethau y mae'r Prif Weinidog wedi'u cael ynghylch goblygiadau'r trafodaethau ar adnewyddu siarter y BBC ar gyfer darlledu yng Nghymru? OAQ(4)2398(FM)

**15. Janet Finch-Saunders (Aberconwy):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am y ddarpariaeth o wasanaethau iechyd yng ngogledd Cymru? OAQ(4)2397(FM)